

Coleg Gwent

Menter ac Entrepreneuriaeth

# Adroddiad Effaith Entrepreneuriaeth Ieuenctid Blynyddol

2023-2024

## Mae Coleg Gwent yn hollol ymrwymedig i wella a chyflymu creu cyfleoedd menter a gwella sgiliau entrepreneuraidd ymhlith ein dysgwyr ar draws pob campws.

Gyda chymorth ariannol gan Lywodraeth Cymru, rydym ni wedi hwyluso darpariaeth gyfunol o weithgareddau wyneb-yn-wyneb ac ar-lein a gynlluniwyd o amgylch meysydd Strategaeth Entrepreneuriaeth Ieuenctid, sef Galluogi ein staff i hybu entrepreneuriaeth o fewn eu pwnc neu adran; Ymgysylltu â dysgwyr drwy fentrau a gynlluniwyd i godi ymwybyddiaeth o entrepreneuriaeth, Grymuso dysgwyr gyda gweithgareddau i helpu datblygu eu galluedd entrepreneuraidd a Darparu dysgwyr â'r sgiliau a chyfleoedd i ddatblygu a lansio eu syniadau busnes.

## Dysgwyr mentrus mewn rhifau...

**Bu**

# 3,146

**o fyfyrwyr yn ymgysylltu â gweithgareddau menter**

**Cafodd**

# 91

**o ddysgwyr eu grymuso i ddarganfod sgiliau entrepreneuraidd**

**Darparwyd**

# 139

**o ddysgwyr y sgiliau i gymryd camau cadarnhaol tuag at ddod yn hunangyflogedig**

**Cefnogwyd**

# 10

**dysgwr i ddod yn hunangyflogedig**

## Sut rydym ni wedi bod yn Galluogi a Chyflymu Entrepreneuriaeth Myfyrwyr:

- Darparwyd gweithdai teilwredig seiliedig yn yr ystafell ddosbarth i dros 500 o fyfyrwyr ar draws 5 campws.
- Galluogwyd 2,443 o ddysgwyr i ymgysylltu'n uniongyrchol â modelau rôl Syniadau Mawr Cymru ysbrydoledig.
- Darparwyd 31 o ddygwyr â chefnogaeth 1-i-1 i greu a datblygu eu syniadau busnes.
- Ymgysylltwyd â dros 80 o ddysgwyr mewn digwyddiad carwsél Sgiliau Uwch Bagloriaeth Cymru ysbrydoledig 2 diwrnod o hyd er mwyn cefnogi'r prosiect Cyrchfannau'r Dyfodol (tasg 2).
- Ymgysylltwyd â dros 40 o diwtoriaid nad oeddent wedi elwa o gefnogaeth Fenter yn y gorffennol i gyflwyno gweithdai ar gyfer eu dysgwyr.

